Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiad Terfyn Ffioedd 2027/28

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English

| Datganiad Terfyn Ffioedd | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Hyd y datganiad terfyn ffioedd a'r dyddiad y daw i rym | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028 |

| Adran 1 - Lefelau ffioedd | |
|---|---|
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu benderfynu ar lefel ffi ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028<br>**Campysau Cymru: Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd**<br>• Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) israddedig<br>• Cartref Meistr Integredig<br>• Cartref TAR |
| 20% o uchafswm y ffi a reoleiddir | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028<br>**Campws Cymru: Abertawe**<br>Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) israddedig - Blwyddyn ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028<br>**Campysau Lloegr: Llundain a Birmingham**<br>Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) israddedig |
| Uchafswm ffi a reoleiddir | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028<br>**Lleoliadau Allgymorth De Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Casnewydd, Pontypridd, Caerdydd**<br>• Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) israddedig<br>• Cartref TAR |
| Uchafswm ffi reoleiddiedig | 1 Awst 2027 tan 31 Gorffennaf 2028 |

| | |
|---|---|
| | **Darparwyr masnachfraint: Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr, Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, Coleg Sir Benfro**<br>Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) israddedig |

| **Adran 1.2 – Lefelau ffioedd cyfanredol** |
|---|
| Bydd cyfanswm y ffioedd ar gyfer hyd cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen ac a oes cynnydd yn uchafswm y ffioedd dysgu a bennir gan Lywodraeth Cymru fel y nodir uchod, fodd bynnag, gellir eu cyfrifo yn y modd hwn:<br><br>*Cyfradd flynyddol ffioedd dysgu amser llawn* x y nifer disgwyliedig o flynyddoedd I’w cymryd ar gyfer y rhaglen = *cyfanswm y ffioedd dysgu ar gyfer y rhaglen*<br><br>Mae'r Brifysgol yn cyfleu gwybodaeth am ffioedd dysgu i'n dysgwyr trwy ein gwefan ar ein tudalennau cyllid. Cyfeirir ymgeiswyr yma yn ystod y broses ymgeisio, e.e. yn eu llythyr cynnig rhaglen. Caiff y Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr sydd ar gael ei gyfleu trwy amrywiaeth o ddulliau. Mae'r tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr yn bresennol mewn diwrnodau agored a diwrnodau blasu ac yn cwrdd â dysgwyr a rhieni (yn rhithwir a wyneb yn wyneb) cyn iddyn nhw wneud cais a chyrraedd y Brifysgol. Mae'r tîm yn ateb ymholiadau cyllid cyffredinol a phenodol gan fyfyrwyr, yn darparu arweiniad ar y broses ymgeisio am gyllid myfyrwyr, ac yn cynghori ar argaeledd a chymhwysedd mewn perthynas â’r cymorth ariannol sydd ar gael.<br><br>Mae dysgwyr sy'n dechrau yn y Brifysgol yn derbyn llawlyfr rhagarweiniol a gwahoddiad i'w sefydlu cyn eu diwrnod cyntaf yn y Brifysgol. Mae'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth fer am gymorth ariannol, gan gynnwys sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad drwy'r tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a dolenni at ragor o wybodaeth a ffurflenni cais bwrsariaeth berthnasol.<br><br>Mae'r broses sefydlu ar gyfer pob dysgwr newydd yn cynnwys cyflwyniad i Wasanaethau Myfyrwyr sy'n darparu disgrifiad byr o fframwaith bwrsariaethau’r Brifysgol ac yn cyfeirio at y tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr ar gyfer ymholiadau a chymorth. Mae manylion allweddol ein tîm staff a manylion ein fframwaith bwrsariaethau, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, dyddiadau ymgeisio a ffurflenni ar-lein, ar gael ar ein gwefan ac ar gael i'n dysgwyr drwy ap Hwb PCYDDS.<br><br>Caiff gwybodaeth atgoffa ei chylchredeg i ddysgwyr sy'n dychwelyd, a hynny’n flynyddol yn rhan o'u gweithgaredd sefydlu cwrs. Mae ein fideos croesawu a chyflwyniad Hwb ill dau yn cynnwys gwybodaeth benodol am gymorth ariannol. O bryd i'w gilydd, cvaiff e-byst eu cylchredeg i atgoffa pob dysgwr am argaeledd bwrsariaethau a dyddiadau cau, ac mae systemau atgyfeirio ar waith gan Undeb y Myfyrwyr, Hwb y Myfyrwyr a'r cyfadrannau, i helpu myfyrwyr sy'n rhoi gwybod am anawsterau ariannol i gael mynediad at gymorth unigol gan y tîm Cymorth Ariannol. Mae ein bot sgwrsio Hwb yn gwneud atgyfeiriadau y tu allan i oriau ar y wefan. Yn ogystal â'r uchod, mae gennym wybodaeth wedi'i chynnwys yn ein prosbectws a chyhoeddiadau canolog eraill sy'n gysylltiedig â'r wefan a'r Hwb. Mae paneli ar gyfer y Gronfa Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a'r Fwrsariaeth Cysylltedd Digidol yn cyfarfod yn wythnosol drwy gydol y flwyddyn i gadarnhau cymhwysedd, asesu ceisiadau a dyfarnu cymorth. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolaeth gan Undeb y Myfyrwyr. |

## Awdurdodi’r datganiad terfyn ffioedd (sy’n ofynnol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi’r cais am ddatganiad terfyn ffioedd, mae’r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu’r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau yr ymgynghorwyd yn briodol â’r undeb myfyrwyr neu gyrff cynrychioli eraill, gan gynnwys y rhai sy’n astudio yn y darparwr ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, a’i fod felly’n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a’u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol cyrsiau (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau o gynnig.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. yn cadarnhau bod yr holl gyrsiau cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) wedi’u hystyried yn y datganiad hwn, ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth;

vi. yn deall bod **rhaid** i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfynau ffioedd, fel y’u cymeradwywyd gan Medr, gael eu hanrhydeddu;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau bod copi o’r datganiad terfyn ffioedd yn gallu cael ei wneud yn hygyrch i’w fyfyrwyr a’i ddarpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| Cais am ddatganiad terfyn ffioedd i Medr[1] | |
|---|---|
| Dyddiad y’i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | 12/06/2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): |  |
| Dyddiad: | 15/06/2026 |
| **Cais terfynol am ddatganiad terfyn ffioedd unwaith y mae Medr wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion eraill (lle y bo’n berthnasol)** | |
| Dyddiad y’i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Dyddiad: | |

[1] **Rhaid** i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau’r darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr yn unig.